

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Arberth,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel

Dda

Dyddiad arolygu: 21 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ionawr

2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	31
4.	Beth nesaf?	35
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	36
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	37
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	40

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Arberth, Heol Northfield, Arberth SA67 7AA, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 21 Hydref 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Meddygfa Arberth yn darparu gwasanaeth da. Nododd y cleifion fod eu profiad yn y practis yn gadarnhaol a gwelsom eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod gan y practis rôl arweiniol yng nghlwtwr meddygon teulu de Sir Benfro, a'i fod wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd.

Gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys pryderon yn ymwneud â rheoli heintiau, polisïau a gweithdrefnau diogelu a chwblhau hyfforddiant staff gorfodol.

Roedd gennym bryderon uniongyrchol ynghylch y gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom nad oedd yr archwiliadau o offer dadebru wedi'u cwblhau ar yr adegau gofynnol ac roedd gennym bryderon ynghylch trefniadau diogelwch tân y practis.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amrywiaeth dda o wybodaeth a mentrau hybu iechyd
- Gwasanaeth nyrs allgymorth i dargeddu cleifion anodd eu cyrraedd¹
- Y rhan fwyaf o'r agweddau ar gadw cofnodion cleifion
- Cyfarfodydd y tîm adnoddau cymunedol amlddisgyblaethol
- Arbenigwr cyhyrsgerbydol cyswllt cyntaf ar gyfer y clwtwr²

¹ Mae'r nyrs allgymorth yn cefnogi cleifion mewn cartrefi gofal ac yn y gymuned

- Clinig mân anafiadau modern ac agored
- Cyfarfodydd rheoli a chyfarfodydd practis rheolaidd
- Cwblhau arfarniadau staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arwyddion cliriach yn nerbynfa'r practis
- Darparu mwy o wybodaeth ddwyieithog i'r cleifion
- Trefniadau gwell ar gyfer preifatrwydd cleifion yn ardal y dderbynfa
- Mynediad gwell at y prif adeilad
- Cwblhau cofrestrau risg y practis
- Cofrestr practis gyfredol yn nodi imiwnedd y staff rhag Hepatitis B
- Storio brechlynnau yn ddiogel yn oergell y fferyllfa
- Cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd gennym bryder uniongyrchol am ddiogelwch y cleifion, yr aed i'r afael ag ef o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Roedd y rhain yn ymwneud ag agwedd ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Mae manylion y gwelliant uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

² Mae'r arbenigwr cyhyrsgerbydol yn gweld y cleifion sy'n dod i'r practis am fod ganddynt boen yn y cymalau a'r cyhyrau

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Arberth yn darparu gwasanaethau i oddeutu 9,000 o gleifion yn ardal Arberth. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys saith partner meddyg teulu, pedair nyrs practis, fferylllydd y practis, gweithiwr cymorth gofal iechyd, rheolwr practis, rheolwr busnes a thîm o staff y dderbynfa a staff gweinyddol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol
- Mân lawdriniaethau
- Clinig diabetes
- Clinig cardiaidd
- Clinig anadlu grŵp
- Clinig y fferylllydd
- Clinig profion ceg y groth
- Clinig teithio a gwasanaeth brechu
- Cynllunio teulu
- Arbenigwr cyhyrysgerbydol
- Cynghorwyr ffyrdd iach o fyw
- Nyrs allgymorth ar gyfer yr henoed

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u bod yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Gwelsom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar.

Roedd trefniadau da ar waith i hybu iechyd cyffredinol y cleifion, a oedd yn cynnwys apwyntiadau â chynghorwyr ffyrdd iach o fyw. Roedd ystod dda o lenyddiaeth ar gael am sefydliadau'r trydydd sector a hybu iechyd.

Roedd angen gwella rhai agweddau ar gadw cofnodion cleifion. Roedd hyn yn cynnwys arwyddion cliriach a mwy o wybodaeth ddwyieithog.

Roedd y practis wedi cymryd camau i wella'r trefniadau ar gyfer preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod risg y gallai'r cleifion eraill yn ardal y dderbynfa glywed gwybodaeth bersonol ar ddamwain.

Roedd gwasanaeth nyrs allgymorth ar gael er mwyn targedu cleifion anodd eu cyrraedd yn y gymuned, er enghraifft, cleifion a oedd yn gaeth i'w cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

Roedd yn bosibl y byddai defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â chadeiriau gwthio yn ei chael yn anodd cael mynediad i'r practis.

Roedd dulliau ar waith yn y practis i gasglu barn y cleifion ac adborth ganddynt, a oedd yn cynnwys grŵp cyfranogiad cleifion. Fodd bynnag, nifer bach iawn o gleifion a oedd yn y grŵp.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar

ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom hefyd siarad â chleifion er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Cawsom gyfanswm o 36 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddyg teulu. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae' staff y dderbynfa yn wych ac yn barod iawn i roi cymorth. Mae'r meddygon yn dda ac yn hawdd iawn mynd atynt"

"Mae'r staff bob amser yn barod iawn eu cymorth ac maent wedi bod felly am yr 20 mlynedd rwyf wedi bod yn glaf yn y practis hwn. Rwyf wedi dod yn hoff iawn o bob un o'r meddygon rwyf wedi'u gweld."

"Diolch, rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gymorth a ddarparwyd gan Ganolfan Iechyd Arberth. Rydym yn ffodus iawn i'ch cael chi"

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Gwella'r system ffonau er mwyn osgoi gorfod aros. Mae'r ffôn fel arfer yn brysur ac wedyn mae'n rhaid aros i'r negeseuon orffen"

"Rwy'n gwybod eu bod yn brin o staff ond mae'n ofnadwy o anodd i geisio cael apwyntiad!"

"Rwy'n credu bod y staff yn wych, ond maent wedi'u gorweithio'n ofnadwy. Maen nhw'n garedig iawn ond mae bron yn amhosibl cael apwyntiad â'ch dewis feddyg"

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bosteri a gwybodaeth ar gael i'r cleifion eu darllen yn nerbynfa'r practis. Roedd hyn yn cynnwys taflenni mewn cynwysyddion ar y waliau ac ar ddesg y dderbynfa. Roedd amrywiaeth eang o asiantaethau trydydd sector lleol a chenedlaethol wedi'u cynrychioli, gan gynnwys: Age Cymru, Hafal, Cymorth Canser Macmillan, Gofal Canser Tenovus, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.

Roedd gan y practis hysbysfwrdd penodol a oedd yn cynnwys deunyddiau gan Sefydliad Prydeinig y Galon. Roedd hwn ger ystafelloedd ymgynghori'r nyrsys, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o daflenni y gallai'r cleifion eu cadw. Roedd y taflenni'n cynnwys gwybodaeth am golesterol, braster dirlawn, siwgr, alcohol, diabetes a rhoi'r gorau i smygu.

Roedd dwy sgrin deledu yn ardal y dderbynfa, a oedd yn dangos cyfres o hysbysebion hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebion ar roi'r gorau i smygu. Hefyd, gwelsom fod posteri penodol a thaflenni gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn y brif dderbynfa.

Roedd peiriant monitro pwysedd gwaed hunanwasanaeth ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio yn ardal y dderbynfa. Gwelsom arwydd yn dweud wrth y cleifion i siarad â'r derbynnydd yn gyntaf, cyn mesur eu pwysedd gwaed. Roedd hysbysfwrdd wrth ochr y peiriant monitro pwysedd gwaed yn rhoi gwybodaeth am ffactorau a all effeithio ar bwysedd gwaed, sut i ddehongli'r canlyniadau a chynghor ar ffyrdd o sicrhau pwysedd gwaed iachach.

Gwelsom fod cynghorwyr ffyrdd iach o fyw y clwstwr³ yn dod i'r practis ddwywaith yr wythnos. Roedd y cynghorwyr ffyrdd iach o fyw yn gweithio gyda grŵp o gleifion, er mwyn rhoi cymorth a'u helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw er mwyn gwella eu hiechyd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cynghor ar smygu, alcohol, ymarfer corff, hamdden, deiet, cwsg a hylendid.

Roedd cynghor a gwybodaeth i ofalwyr i'w gweld ar hysbysfwrdd penodedig yn ystafell y dderbynfa. Roedd yr hysbysfwrdd yn cynnwys amrywiaeth o bosteri, a oedd yn cynnwys Grŵp Cymorth i Ofalwyr, Diwrnod Cenedlaethol Gofalwyr, a hysbysiad yn gofyn i bobl roi gwybod os oeddent yn ofalwyr, a chwblhau ffurflen gofrestru. Gwelsom fod ffurflenni cofrestru gofalwyr ar gael i'w casglu gan staff y dderbynfa.

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y practis. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom

³ Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau lleol.

fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Dywedodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo bod y staff bob amser yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais a charedig.

Gallai'r cleifion ddefnyddio sgrin hunangofrestru neu fynd at ddesg y dderbynfa i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd. Roedd y system sgrin gyffwrdd hunangofrestru wrth ymyl prif ddesg y dderbynfa, a gwelsom nifer o'r cleifion yn ei defnyddio wrth gyrraedd y practis. Roedd y cyfleuster hunangofrestru'n helpu i wella preifatrwydd y cleifion drwy leihau ciwiau posibl, ac yn golygu nad oedd yn rhaid i'r cleifion gadarnhau eu manylion ar lafar wrth y dderbynfa.

Gwelsom fod y seddi yn ardal aros y dderbynfa yn eithaf agos at ddesg y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y seddi wedi cael eu rhoi ar ongl sgwâr i ddesg y dderbynfa, yn hytrach na'u bod yn ei hwynebu, er mwyn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y claf wrth siarad â staff y dderbynfa. Nid oedd unrhyw rwystrau gwydr neu debyg yn ardal y dderbynfa i atal pobl eraill rhag clywed sgysiau, a oedd yn golygu y gallai staff y dderbynfa gael eu clywed yn siarad ar y ffôn weithiau.

Gwelsom fod arwydd wedi'i roi mewn man amlwg ger desg y dderbynfa, a oedd yn rhoi gwybod i ymwelwyr y dylent barchu preifatrwydd yr unigolyn o'u blaen, ac aros wrth ymyl yr arwydd nes i'r derbynnydd alw arnynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o'r cleifion yn aros wrth yr arwydd a'u bod yn symud ymlaen wrth aros am gael siarad â'r derbynnydd, a allai amharu ar breifatrwydd y claf o'u blaen. Er bod yr arwydd yn amlwg i'w weld, dylai'r practis ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn, er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth y dderbynfa.

Gwelsom fod hysbysiad ar ddesg y dderbynfa, a oedd yn dweud wrth y cleifion i roi gwybod i'r derbynnydd os oeddent am drafod unrhyw fater yn breifat. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion a oedd yn gofyn am gael sgwrs breifat, yn cael eu tywys i ardal eistedd y tu allan i'r ystafelloedd ymgynghori oddi wrth y brif dderbynfa.

Ni welsom unrhyw arwyddion yn ardal y dderbynfa a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion y gallent fynd â hebryngwr i mewn i'r apwyntiad. Dywedwyd wrthym fod hysbysiaidau ar ddefnyddio hebryngwyr yn cael eu harddangos yn ystafelloedd ymgynghori pob meddyg teulu, a'i fod yn cael ei hysbysebu ar y sgriniau teledu. Gwelsom fod nifer o'r staff wedi cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaeth hebryngwr i'r cleifion, a nod y gwasanaeth hwn yw diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan fydd cleifion yn cael archwiliadau o natur bersonol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Ystyried ffyrdd o wella preifatrwydd cleifion a lleihau'r risg y gallai cleifion eraill glywed unrhyw wybodaeth bersonol ar ddamwain, er enghraifft, rhoi sgrin ar ddesg y dderbynfa
- Sicrhau bod arwyddion clir yn cael eu harddangos yn barhaol yn y dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion bod cyfleuster hebryngwr ar gael.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan broffesiynol iawn a oedd yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei defnyddio. Roedd y wefan yn cynnwys gwybodaeth glir am amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys tîm y practis, oriau agor, apwyntiadau a phresgripsiynau. Roedd gwefan y practis yn hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein⁴. Gall hyn helpu cleifion i wneud apwyntiadau a gwneud cais am bresgripsiynau amlroddadwy ar-lein. Cawsom wybod bod oddeutu 1,000 o gleifion wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Gwelsom fod arwydd ar wal allanol y practis, a oedd yn dangos rhif cyswllt y meddyg teulu ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Roedd nifer o dystysgrifau a gwobrau wedi'u harddangos ar wal y dderbynfa. Roedd hyn yn cynnwys gwobr efydd gan Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn 2017, gwobr Meddyg y Flwyddyn gan y Western Telegraph yn 2018, a gwobr rhestr fer ar gyfer Gweithio'n Ddi-dor ar Draws Sefydliadau gan GIG Cymru yn 2018.

Nodwyd gennym nad oedd yr arwyddion yn y practis yn glir a gwelsom nifer o gleifion a oedd yn ansicr ble i fynd ar gyfer eu hapwyntiadau. Ni allem weld

⁴ <https://www.myhealthonline-emisweb.wales.nhs.uk/languages?returnurl=/>

unrhyw arwyddion a oedd yn dangos ble roedd yr ystafelloedd triniaeth. Roedd y system galw cleifion wedi'i chysylltu â'r ddwy sgrin deledu yn y dderbynfa, ac roedd yn cael ei defnyddio i roi gwybod i'r cleifion pryd roedd yr ymarferwr yn barod i'w gweld. Gwelsom fod y testun ar y sgrin yn nodi enw'r claf ac enw'r meddyg teulu, ond nad oedd bob amser yn dangos rhif yr ystafell. Gwelsom nifer o gleifion yn dweud wrth staff y practis nad oeddent yn gwybod ble i fynd ar gyfer eu hapwyntiadau, a gwelsom hefyd fod meddygon teulu wedi gorfod dod i'r dderbynfa i chwilio am gleifion. Pan drafodwyd hyn â staff y practis, dywedwyd wrthym fod y systemau TG wedi cael eu huwchraddio i Windows 10 yr wythnos flaenorol, a bod hyn wedi effeithio ar y system galw cleifion ac wedi arwain at beidio â dangos rhifau'r ystafelloedd.

Gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am broses Gweithio i Wella GIG Cymru⁵. Pan drafodwyd hyn â staff y practis, dywedwyd wrthym fod fersiwn electronig o boster Gweithio i Wella yn rhan o'r amserlen wythnosol o hysbysebion ar y sgriniau teledu. Fodd bynnag, am nad oedd poster yn cael ei arddangos yn barhaol, maen bosibl na fydd rhai cleifion yn gweld yr hysbyseb. Dywedodd un claf y cawsom sgwrs ag ef fod ganddo gŵyn ond nad oedd yn gwybod sut i'w chodi â'r practis.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis wedi'i hargraffu ar ddarn o bapur ac roedd copïau ohoni ar gael ar ddesg y dderbynfa, y gallai'r cleifion eu cadw. Roedd y weithdrefn gwyno yn nodi'n glir mai rheolwr y practis oedd yr arweinydd cwynion, ac yn disgrifio'r amserlenni a'r broses ar gyfer gwneud cwyn. Roedd hefyd yn cynnwys ffynonellau eiriolaeth pe bai claf yn anfodlon ar ganlyniad cwyn. Roedd y ffynonellau eiriolaeth yn cynnwys y bwrdd iechyd a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a'r Cyngor Iechyd Cymuned i Gymru. Nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

⁵ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod arwyddion yn y dderbynfa yn dangos yn glir ble mae'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd thriniaeth
- Sicrhau bod y system galw cleifion yn cynnwys gwybodaeth sy'n dweud wrth y cleifion ym mha ystafell y mae eu hapwyntiad
- Sicrhau bod poster Gweithio i Wella yn cael ei arddangos a bod taflenni ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion eu cadw
- Sicrhau bod y polisi cwynion yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel ffynhonnell eiriolaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Roedd pob un o'r cleifion o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, a dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i gleifion yn ddwyieithog, ond dim ond ychydig bach. Gwelsom hefyd nad oedd cyfleuster ar y wefan i gyfieithu'r testun i'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd arwydd wedi'i arddangos yn glir ar ddesg y dderbynfa, a oedd yn dweud wrth y cleifion am ofyn am ddau aelod penodol o'r staff os oeddent am siarad Cymraeg. Gwelsom hefyd fod y staff yn gallu cael gafael ar wasanaeth cyfieithu pe bai angen iddynt gyfathrebu â chleifion nad oeddent yn gallu siarad Saesneg.

Roedd system dolen sain gludadwy ar gael er mwyn helpu cleifion sy'n drwm eu clyw. Gwelsom fod y cyfleuster hwn wedi'i hysbysebu ar ddesg y dderbynfa.

Gwelsom fod proses ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth glinigol a ddaw i law yn cael ei hadolygu gan feddyg teulu, ond nid oedd polisi ysgrifenedig ar hyn. Dylai'r practis ystyried llunio polisi i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn yr un broses, ac y gellir ei rhannu ag aelodau newydd o'r tîm.

Gwnaethom edrych ar sampl o grynodedbau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Gwelsom fod y practis yn sganio llythyrau ysbytai ac yn eu lanlwytho i system glinigol electronig mewn ffordd amserol, er mwyn llywio'r broses o roi gofal a

thriniaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, gwelsom fod ansawdd y wybodaeth rhyddhau cleifion a gafwyd gan Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn wael, gan gynnwys gwybodaeth annigonol a rhywfaint o nodiadau a ysgrifennwyd â llaw nad oedd yn hawdd eu deall. Dylai'r practis godi'r mater hwn â'r bwrdd iechyd lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth bwysig am y practis ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys gwybodaeth ar y wefan.

Gofal amserol

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis, a dywedodd mwy na dau o bob tri dair ohonynt ei bod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen.

Pan ofynnwyd yn yr holiadur iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y profiad yn dda iawn neu'n dda. Fodd bynnag, dywedodd tua dau o bob tri ohonynt mai dim ond 'weithiau' y gallent weld eu dewis feddyg.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn bersonol, dros y ffôn ac ar-lein. Roedd y practis yn darparu apwyntiadau meddyg teulu y gellid eu trefnu ymlaen llaw ac ar y diwrnod. Roedd apwyntiadau ar gael rhwng 08:30pm a 6:00pm, bum diwrnod yr wythnos.

Gwnaethom fwrw golwg dros drefniadau'r practis ar gyfer sicrhau bod pob claf yr oedd angen apwyntiad arno yn cael cynnig ymgynghoriad â gweithiwr gofal iechyd priodol. Gwelsom fod staff y dderbynfa yn cyfeirio'r cleifion at y clinigydd mwyaf priodol. Fodd bynnag, nid oedd sgript ffurfiol ar waith iddynt ei dilyn er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn briodol.

Dyweddodd un claf y cawsom sgwrs ag ef fod ei merch wedi dod i'r feddygfa ac wedi gofyn am apwyntiad â'r meddyg teulu oherwydd poen clust. Cafodd y claf ei chyfeirio at y fferylllydd, a siaradodd â'r claf yn y coridor heb wneud archwiliad. Dychwelodd y claf ddau ddiwrnod yn ddiweddarach ac roedd angen apwyntiad meddyg teulu arni. Yn ystod yr apwyntiad hwnnw, gwelwyd bod ganddi ymchwydd yn y glust yr oedd angen ei drin â gwrthfotigau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff proses ysgrifenedig neu brotocol ei roi ar waith, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cleifion yn cael eu hatgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol neu'n cael cynnig ymgynghoriad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol o'r fath.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i'r adeilad. Roedd ystafelloedd ymgynghori ac ystafelloedd triniaeth y meddygon teulu ar y llawr daear, ac roedd ystafelloedd ymgynghori'r nyrsys ar y llawr cyntaf. Roedd lifft ar gael yn ardal y dderbynfa er mwyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio gyrraedd y llawr cyntaf.

Gwelsom fod drysau mynedfa'r adeilad yn drwm iawn ac nad oeddent wedi'u hawtomeiddio. Felly, gallai fod yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â chadeiriau gwthio fynd i mewn i'r adeilad. Fodd bynnag, roedd un o'r cleifion y cawsom sgwrs ag ef yn defnyddio cadair olwyn a dywedodd wrthym nad oedd yn cael unrhyw broblemau wrth ddod i mewn i'r practis nac wrth symud o gwmpas. Gwelsom fod desg y dderbynfa yn cynnwys rhan lefel isel a oedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn gwasanaethu poblogaeth oedrannus a bod llawer o'r cleifion dros 65 oed, ac y gallai fod yn anodd iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau. Datblygwyd rôl nyrs allgymorth drwy'r clwstwr lleol, a oedd yn dod i'r practis am ddiwrnod bob wythnos. Nod y nyrs allgymorth oedd cefnogi'r cleifion yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cartrefi gofal, a lleihau'r angen i feddyg teulu gael ei alw allan ar gyfer achosion nad oeddent yn rhai brys a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.

Rhoddwyd gwybod i ni am y broses o adnabod cleifion ag anghenion ychwanegol, drwy system faneri ar gofnodion electronig cleifion. Byddai hyn yn rhoi gwybod i staff y practis am gleifion a oedd yn drwm eu clyw neu â nam ar y golwg, er enghraifft. Gwelsom hefyd fod cleifion ag anabledau dysgu yn cael adolygiad blynyddol gan feddyg teulu a oedd yn cael ei gofnodi ar gofnod y claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ystyried opsiynau i wella mynediad defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio i adeilad y practis.

Hawliau pobl

Gwelsom fod hawliau pobl yn cael eu hybu yn y practis a gwelsom fod y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Gwelsom fod y practis yn casglu data ar gydraddoldeb ac amrywiaeth o ffurflenni cofrestru cleifion newydd. Hefyd, gwelsom fod perthnasau neu ofalwyr nifer o'r cleifion wedi mynd gyda nhw i'w hapwyntiadau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd blwch awgrymiadau cleifion ar ddesg y dderbynfa, a oedd yn cynnwys ffurflenni i'r cleifion eu llenwi er mwyn rhoi adborth. Gwelsom fod hysbyseb wedi'i harddangos ar y sgriniau teledu yn y dderbynfa, a oedd yn gofyn i'r cleifion lenwi'r ffurflenni sylwadau a rhoi adborth ar wasanaethau meddygon teulu. Dywedwyd wrthym fod nifer y ffurflenni adborth a dderbyniwyd yn isel iawn.

Roedd posteri'n cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa a oedd yn hysbysebu'r grŵp cyfranogiad cleifion, a gwelsom fod ffurflenni ymuno ar gael ar ddesg y dderbynfa. Roedd y grŵp yn cynnig ffordd i'r cleifion gynghori'r practis a rhoi gwybod iddo am yr hyn sydd fwyaf pwysig i'r cleifion, a helpu i ddod o hyd i atebion i broblemau. Gwelsom fod y grŵp wedi cael ei sefydlu yn 2017, a dros amser, roedd nifer yr aelodau wedi gostwng i dri. Dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu ailwampio'r grŵp cyfranogiad cleifion yn 2020, gyda datganiad cenhadaeth mwy eglur.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y practis yn cynnig amgylchedd modern a glân iawn i ddarparu gofal i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y practis asesiadau risg ar waith na chofrestr risg ganolog.

Roedd safon y prosesau ar gyfer cadw cofnodion cleifion yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau o ran cysylltu meddyginiaethu â chyflyrau, a chofnodi pam nad oedd meddyginiaethau yn parhau i gael eu rhagnodi.

Roedd gan y practis rôl arweiniol yng nghlwstwr de Sir Benfro, ac roedd wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd y clwstwr. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd y tîm adnoddau cymunedol amlddisgyblaethol.

Roedd angen gwella rhai agweddau ar reoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys diweddarau'r gofrestr o imiwnedd y staff rhag Hepatitis B.

Roedd meddyginiaethau a brechlynnau yn cael eu storio mewn oergell yn y fferyllfa. Fodd bynnag, roedd sawl un o'r brechlynnau yn cyffwrdd â chefn yr oergell, ac felly roedd yn bosibl eu bod yn rhy oer a bod angen cael gwared arnynt.

Roedd angen diweddarau nifer o bolisïau a gweithdrefnau diogelu. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i dyddio'n sylweddol. Nid allem fod yn sicr bod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer y dyfodol agos.

Roedd gennym nifer o bryderon uniongyrchol yn ymwneud â diogelwch y cleifion, ac aed i'r afael â'r rhain drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau mwy cadarn ar gyfer diogelwch tân ac archwilio'r cyfarpar dadebru yn amlach.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y prif adeilad yn cael ei rannu gan hyd at 64 aelod o staff, a oedd yn cynnwys y practis meddygon teulu a staff y bwrdd iechyd. Gwelsom fod ystafelloedd ar gyfer trin traed, nyrsys seiciatrig cymunedol, nyrsys dosbarth, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Roedd y practis yn cynnwys ystafelloedd ymgynghori ar gyfer meddygon teulu a nyrsys, tair ystafell glinigol ac ystafell driniaeth fawr a modern iawn ar gyfer mân lawdriniaethau. Dywedwyd wrthym y manteisiwyd ar nifer o grantiau gwella dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn gwella'r adeilad. Roedd fferyllfa ac optegydd yn y prif adeilad hefyd.

Gwelsom fod adeilad y practis yn lân ac yn agored. Roedd y brif dderbynfa ac ystafelloedd ymgynghori'r meddygon teulu ar y llawr daear. Roedd ardal aros fach ac ystafelloedd ymgynghori'r nyrsys ar y llawr cyntaf. Gallai'r cleifion gyrraedd y llawr cyntaf drwy ddefnyddio'r grisiau ger y fynedfa neu lifft yn ardal y dderbynfa. Nid oedd unrhyw annibendod na pheryglon yn y coridorau a all achosi i bobl faglu a chwympo.

Roedd toiledau dynion a merched yn ardal y dderbynfa ar y llawr daear. Roedd arwydd yn rhoi gwybod i'r cleifion fod y toiled â mynediad i bobl anabl a'r cyfleusterau newid cewynnau babanod ar gael ar y llawr cyntaf, y gellid eu cyrraedd gan ddefnyddio'r lifft. Gwelsom fod drws mynedfa'r toiled ar y llawr cyntaf yn yr ardal aros i fyny'r grisiau. Fodd bynnag, gwelsom fod cadair a bwrdd bach yn agos iawn i ddrws y toiled. Nid oedd fawr ddim lle i agor y drws ac ni fyddai defnyddiwr cadair olwyn wedi gallu symud rhwng y dodrefn er mwyn cyrraedd y toiled.

Roedd gan y practis system ar waith i ymdrin â ffliw pandemig. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau risg digonol ar waith i reoli a nodi risgiau presennol a newydd yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys diffyg asesiad risg iechyd a diogelwch blynyddol a diffyg cofrestr risg ganolog.

Ystyriwyd trefniadau ar gyfer diogelwch tân, a oedd yn cynnwys siarad â'r staff ac adolygu cofnodion hyfforddiant, y polisi a'r weithdrefn tân, a'r asesiad risg tân allanol a gwblhawyd ar gyfer yr adeilad. Gwelsom nad oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal ac nad oedd unrhyw gofnodi i ddangos bod unrhyw aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Gwelsom fod y polisi a'r weithdrefn tân wedi'u hadolygu ym mis Medi 2019. Fodd bynnag, nid oedd y profion wythnosol a misol ar y larwm tân a'r goleuadau argyfwng yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod yr asesiad risg tân allanol wedi cael ei gynnal gan gwmni diogelwch tân ym mis Ebrill 2019. Casgliad cyffredinol yr asesiad risg tân oedd yr ystyriwyd bod lefelau rheoli diogelwch tân yr eiddo yn ddigonol. Fodd bynnag, yn y cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r asesiad risg tân, gwelsom fod nifer o gamau dilynol wedi'u nodi, gan gynnwys profi'r larwm tân yn wythnosol a darparu hyfforddiant diogelwch tân i'r staff. Dylai'r camau gweithredu hyn fod wedi cael sylw o fewn tri mis, ond gwelsom nad oedd y camau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â diogelwch tân o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni brys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod asesiadau risg y practis yn cael eu cwblhau, gan gynnwys asesiad risg iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod y llwybr i'r toiled â mynediad i bobl anabl i fyny'r grisiau yn rhydd rhag unrhyw rwystrau
- Comisiynu asesiad risg tân allanol newydd.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Gwelsom fod poteli o gel hylendid dwylo ar gael mewn lleoliadau amrywiol yn ardal aros y dderbynfa. Roedd cyfleusterau cyflenwi gel hylendid dwylo ar sawl wal yn y practis hefyd. Roedd hyn yn helpu i leihau'r risg o groes-heintio rhwng cleifion a oedd yn dod i mewn i'r practis.

Roedd llenni tafladwy i ddiogelu urddas wedi'u gosod o amgylch y gwelyau archwilio yn yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth, er mwyn helpu i atal neu leihau'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y llenni i gyd wedi cael eu dyddio i ddangos pryd y cafodd rhai newydd eu gosod. Gwelsom hefyd nad oedd dyddiad ar bob un o'r biniau gwastraff clinigol yn y practis ar gyfer dal offer miniog meddygol.

Gwelsom fod y bin gwastraff clinigol yn cael ei gadw yn y maes parcio, a bod clo arno. Fodd bynnag, nid oedd yn cael ei storio mewn cynhwysydd diogel, fel yr amlygir ar dudalen 144 o ddogfen Safe Management of Healthcare Waste (WHTM 07-01)⁶, ac felly mae'n bosibl y gallai gael ei symud neu ei gamddefnyddio. Pan wnaethom sôn wrth reolwr y practis am y mater hwn, dywedwyd wrthym fod y practis yn ymwybodol iawn o'r mater hwn. Gwelsom fod y tir yn union o gwmpas y practis ar oleddf, a dyna'r rheswm pam roedd y bin gwastraff yn cael ei storio yn y maes parcio ac nad oedd modd ei glymu i'r adeilad. Roedd y practis wedi gofyn i berchennog yr adeilad am gael adeiladu darn o lawr caled ar yr ardal laswelltog, neu i ofyn a fyddai modd rhoi polyn yn y ddaear er mwyn clymu'r bin gwastraff clinigol iddo. Fodd bynnag, nid oedd perchennog yr adeilad wedi rhoi caniatâd ar gyfer yr un o'r opsiynau hyn.

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli heintiau cyfredol, a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn sefydlu staff ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom fod cyfarwyddiadau hylendid dwylo wrth ymyl y sinciau yn y practis ynghyd â chyfarwyddiadau ar roi gwastraff yn y biniau penodol. Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r practis ddarparu'r canlyniadau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom mai carped oedd ar lawr yr ystafell ymgynghori ar y llawr cyntaf a ddefnyddiwyd ar gyfer rheoli clefydau cronig. Dylai'r practis ystyried gosod leino neu lawr finyl y gellir ei lanhau'n hawdd yn lle'r carped, er mwyn gwella'r broses rheoli heintiau.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y cofnodion ar gyfer imiwnedd y staff clinigol rhag Hepatitis B. Gwelsom nad oedd y cofnod canolog o statws Hepatitis B yn gyfredol a bod angen ei ddiweddarau, er mwyn dangos bod gan bob aelod o staff y practis imiwnedd er mwyn diogelu eu hunain a'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

⁶ WHTM 07-01: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHTM%2007-01.pdf>

- Sicrhau y nodir dyddiad ar yr holl lenni urddas tafladwy, a bod rhai newydd yn cael eu gosod ar yr adegau gofynnol.
- Sicrhau y nodir dyddiadau ar yr holl finiau gwastraff ar gyfer cadw offer miniog meddygol
- Ystyried yr opsiynau ar gyfer cadw gwastraff clinigol yn ddiogel, er enghraifft ei storio y tu allan
- Diweddarau'r cofnod canolog o imiwnedd yr holl staff clinigol rhag Hepatitis B.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod brechlynnau a meddyginiaethau eraill yn cael eu storio mewn oergell yn y fferyllfa. Fodd bynnag, gwelsom fod cefn rhai bocsys o'r brechlynnau yn cyffwrdd â chefn yr oergell, sy'n agos at y plât oeri ac felly a allai fod yn oerach. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl bod rhai o'r brechlynnau wedi cael eu storio ar dymheredd anniogel. Gwnaethom godi hyn â'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad a chawsom wybod bod y brechlynnau wedi cael eu gwaredu. Fodd bynnag, gan fod yr ystafell yn cael ei defnyddio, nid oedd modd i ni archwilio'r oergell unwaith eto i weld a oedd y brechlynnau wedi cael eu gwaredu.

Roedd fferyllydd y practis ar y safle a oedd yn gyfrifol am gynnal adolygiadau meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth, y dos a'r defnydd cywir yn cael eu rhagnodi i'r cleifion. Roedd y fferyllydd hefyd yn cwblhau archwiliad rhagnodi. Gwelsom fod y prif feddyg teulu yn mynychu cyfarfodydd rhagnodi chwarterol, ac yn rhannu gwybodaeth â'r tîm clinigol yn ystod y cyfarfodydd clinigol wythnosol.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio'r cynllun cerdyn melyn⁷ er mwyn rhoi gwybod am bryderon ynghylch adweithiau negyddol i gyffuriau, ac roedd mwy na deg o ddigwyddiadau wedi'u cyflwyno yn ystod y 12 mis blaenorol.

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/>

Roedd y practis yn defnyddio fformiwlari'r bwrdd iechyd lleol a dywedwyd wrthym y caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd ar-lein i ystyried canllawiau lleol a chenedlaethol. Roedd hyn yn golygu bod y clinigwyr yn rhagnodi meddyginiaeth o restr ddewisol o feddyginiaethau a gymeradwywyd gan y bwrdd iechyd.

Roedd cofnodion y staff yn anghyflawn, ac felly ni allem fod yn sicr bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddadebru cardiobwlmonaidd. Caiff mater cofnodion hyfforddiant anghyflawn ei drafod ymhellach yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.

Gwnaethom fwrw golwg dros y trefniadau ar gyfer archwilio'r offer dadebru a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi bod yn eu harchwilio'n fisol. Yn ôl diffiniad y Cyngor Dadebru (DU)⁸, dylid archwilio offer dadebru mewn safleoedd gofal sylfaenol yn wythnosol o leiaf. Roedd y ffaith nad oedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn peri risg i ddiogelwch y cleifion, gan nad oedd y troli dadebru o bosibl yn cynnwys digon o offer/meddyginiaeth, neu nad oedd yr offer/meddyginiaeth o bosibl yn gyfredol nac yn barod i'w defnyddio, pe bai argyfwng yn codi gyda chlaf

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â gwiriadau wythnosol ar y cyfarpar dadebru o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Ceir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad yw meddyginiaeth na brechlynnau yn yr oergell yn y fferyllfa yn cyffwrdd â chefn yr oergell, gan gynnal y gadwyn oer briodol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant dadebru gorfodol.

⁸ [Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru](#)

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd meddyg teulu a oedd yn bartner wedi cael ei benodi'n arweinydd diogelu. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff berson cyswllt lleol i roi gwybod iddo am bryderon diogelu a thrafod y pryderon hynny. Roedd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol pwy oedd yr arweinydd diogelu yn y practis. Fodd bynnag, roedd un aelod o'r staff yn ansicr, a dywedodd wrthym y byddai'n cysylltu â rheolwr y practis ag unrhyw bryderon.

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a adolygwyd ym mis Medi 2019. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r polisi am nad oedd yn nodi arweinydd diogelu'r practis nac yn nodi prif gysylltiadau a rhifau ffôn, er mwyn i'r staff allu gwneud atgyfeiriad pe bai angen.

Gwelsom nad oedd polisi ar waith ar gyfer diogelu plant sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, gwelsom weithdrefn diogelu plant a oedd wedi'i chynnwys yn y pecyn sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o'r staff. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses i'r staff ei dilyn er mwyn gwneud atgyfeiriad, ond roedd y wybodaeth wedi dyddio'n sylweddol. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at fanylion cyswllt Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen, nad yw wed bodoli ers mis Ebrill 2008. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ydyw erbyn hyn.

Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant y staff ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn anghyflawn. Cawsom wybod, yn ein sesiwn adborth ar ddiwedd yr arolygiad, fod trefniadau wedi'u gwneud i bob aelod o'r staff clinigol fynychu hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed lefel tri ar 20 Tachwedd 2019. Caiff mater cofnodion hyfforddiant anghyflawn ei drafod ymhellach yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.

Gwelsom fod diogelu yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd clinigol wythnosol. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal â'r ddau ymwelydd iechyd er mwyn trafod materion diogelu'r teulu. Gwelsom fod trefniadau ar waith i nodi plant sy'n wynebu risg, a oedd yn cynnwys gosod rhybudd ar gofnod y plentyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu yn y practis.
- Sicrhau bod polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn

berthnasol ac yn gyfredol.

- Sicrhau bod pob aelod o staff y practis yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a darparu tystiolaeth i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau
- Sefydlu cyfarfodydd ffurfiol â'r ymwelwyr iechyd er mwyn trafod materion diogelu plant.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y practis yn dogfennu ac yn adolygu digwyddiadau arwyddocaol, ac yn eu trafod yn y cyfarfodydd clinigol wythnosol. Gwelsom hefyd fod cyfarfod diwedd y flwyddyn yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn adolygu digwyddiadau arwyddocaol a dysgu ohonynt, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth am ddigwyddiadau a gyflwynir i Datix⁹, pryderon ysgrifenedig a phryderon llafar.

Nododd y practis yr enghraifft ganlynol, lle cafodd newid ei gyflwyno yn sgil digwyddiad arwyddocaol. Roedd yn ymwneud â chlaf a oedd wedi defnyddio'r peiriant monitro pwysedd gwaed yn y dderbynfa, wedi cael darlleniad uchel iawn ac yna wedi gadael y practis. O ganlyniad, cafodd y protocol ei newid, er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion bod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r derbynnydd os yw canlyniad y pwysedd gwaed uwchlaw lefel benodol, ac yna aros yn y practis i weld meddyg teulu.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi dechrau defnyddio Datix i roi gwybod am ddigwyddiadau arwyddocaol yn ddiweddar. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis ymwreiddio'r defnydd o Datix ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys trefnu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer aelodau o'r tîm ar nodi a chofnodi digwyddiad arwyddocaol ar Datix.

⁹ System rheoli digwyddiadau wedi'i theilwra yw Datix a all gefnogi practisau i gofnodi a dadansoddi Digwyddiadau Arwyddocaol.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod tîm y practis yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ac unrhyw ganllawiau proffesiynol newydd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)¹⁰. Roedd hyn yn cynnwys anfon y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost at reolwr y practis a thrafodaethau yn y cyfarfodydd clinigol wythnosol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nodwyd gennym fod gan y practis rôl arweiniol yng nghlwtwr Sir Benfro, a oedd yn cynnwys pum practis meddyg teulu. Roedd rheolwr y practis ac un o'r partneriaid meddyg teulu yn arweinwyr ar gyfer eu meysydd perthnasol yn y clwtwr.

Roedd y practis wedi rhoi amrywiaeth o brosiectau'r clwtwr ar waith er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn cynnwys nyrs allgymorth ar gyfer cleifion oedrannus, cynghorwyr ffyrdd iach o fyw a'r tîm adnoddau cymunedol (CRT). Roedd cyfarfodydd y CRT yn cael eu cynnal bob pythefnos, a gallant gael eu mynychu gan y gweithwyr proffesiynol canlynol: meddyg teulu, rheolwr y practis, nyrs ardal, nyrs eiddilwch, uwch-nyrs cyflyrau cronig, therapydd galwedigaethol y clwtwr, fferylllydd y clwtwr, ffisiotherapydd, gwasanaethau cymdeithasol a'r nyrs seiciatrig gymunedol.

Hefyd, roedd y practis wedi penodi ffisiotherapydd cyhyrysgerbydol cyswllt cyntaf ar gyfer y clwtwr yn ddiweddar. Roedd y ffisiotherapydd yn bwynt cyswllt cyntaf i gleifion ochr yn ochr â'r meddygon teulu, ac roedd ei gylch gwaith wedi'i ddiffinio'n glir, er enghraifft, adolygu anafiadau meinweoedd meddal, streifiadau, ysigiadau a phoen sy'n gysylltiedig ag arthritis. Nod y dull gweithredu hwn oedd gweld cleifion yn gynharach er mwyn ymyrryd cyn i'w cyflyrau waethygu.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gan y practis bolisiau ar waith mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli gwybodaeth cleifion a chael mynediad at gofnodion iechyd. Gwelsom boster yn ardal y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion am brosesu teg.

¹⁰ <https://www.nice.org.uk/>

Roedd yn rhoi gwybod i'r cleifion pam roedd y practis yn casglu gwybodaeth bersonol a sut roedd yn cael ei defnyddio, ac am eu hawl i gael gafael ar eu data personol. Roedd copi llawn o'r hysbysiad prosesu teg ar gael o'r dderbynfa i'r cleifion ei gadw.

Gwelsom fod adran benodol ar GDPR ar wefan y practis, a oedd wedi'i chyflwyno mewn ffordd glir ac yn hawdd ei deall. Roedd y wefan hefyd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os oedd ganddynt bryder yn ymwneud â dulliau prosesu data'r practis.

Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn anghyflawn. Caiff mater cofnodion hyfforddiant anghyflawn ei drafod ymhellach yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig naw claf a gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn glir ac roedd modd pori drwyddynt yn hawdd er mwyn sicrhau parhad gofal rhwng clinigwyr.

Gwelsom fod y canfyddiadau clinigol yn cael eu diweddarau'n brydlon a bod adroddiad da yn cael ei gofnodi am bob cyswllt. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth pan oedd ei hangen, er enghraifft, mewn cofnod lle roedd claf yn dioddef o boen yn y frest. Gwelsom fod y meddyg teulu wedi cofnodi gwybodaeth fanwl am ffactorau eraill a ystyriwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Yn rhai o'r cofnodion, gwelsom nad oedd y meddyginiaethau a ragnodwyd wedi'u cysylltu'n glir â'r cyflyrau priodol. Gwelsom rai enghreifftiau hefyd lle nad oedd y rhesymau dros roi'r gorau i ragnodi meddyginiaeth wedi'u cofnodi.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybodaeth am eu cyflwr a'r opsiynau ar gyfer ei reoli er mwyn iddynt ddeall eu hiechyd a'u salwch eu hunain.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y meddyg teulu wedi gofyn am gydsyniad cleifion yn y ddau achos lle roedd hynny'n ofynnol. Nid oedd unrhyw achosion lle roedd yn bosibl y byddai angen hebryngwr ar gyfer archwiliadau personol yn y cofnodion a welsom.

Gwelsom fod dau aelod o staff dynodedig ar gyfer crynhoi nodiadau cleifion, a'u bod wedi cael hyfforddiant. Mae crynhoi gwybodaeth yn helpu i sicrhau y gall y meddygon teulu a'r nyrsys gael gafael yn hawdd ar hanes meddygol blaenorol perthnasol claf er mwyn helpu i lywio penderfyniadau am ofal a thriniaeth. Gwelsom nad oedd y nodiadau wedi'u crynhoi yn cael eu hadolygu na'u harchwilio'n rheolaidd gan feddyg teulu er mwyn gwirio eu hansawdd, ac awgrymwn y dylai'r practis ystyried rhoi hyn ar waith er mwyn sicrhau bod safonau da yn cael eu cynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff meddyginiaethau a ragnodir eu cysylltu'n glir â'r cyflyrau priodol yng nghofnodion y cleifion
- Sicrhau y cofnodir y rhesymau dros roi'r gorau i ragnodi meddyginiaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod llinellau rheoli ac atebolrwydd clir yn y practis. Roedd y tîm rheoli yn brofiadol ac yn awyddus iawn i ddysgu o'r arolygiad.

Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd busnes a chyfarfodydd clinigol wythnosol. Fodd bynnag, roedd cofnodion y cyfarfodydd yn gryno iawn weithiau, ac nid oedd cofnod clir o'r camau gweithredu a gododd o'r cyfarfodydd.

Roedd polisïau'r practis ar gael i'r staff ar y fewnrwyd a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Gwelsom nad oedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau yn y mwyafrif o'r cofnodion staff a welwyd gennym, ond gwelsom un enghraifft lle nad oedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael yn ffeil aelod o'r staff clinigol.

Roedd y staff yn cael arfarniadau rheolaidd er mwyn nodi unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad, ac anghenion hyfforddiant a datblygu'r staff.

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y wybodaeth am hyfforddiant staff yn gyfredol, a'i bod yn hawdd cael gafael arni i ddangos bod angen cwblhau'r hyfforddiant a bod hynny wedi cael ei wneud.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y ddau bractis meddyg teulu yn Arberth wedi uno o'u gwirfodd yn 2016 er mwyn creu meddygfa Arberth. Ar adeg ein harolygiad, roedd saith

partner meddyg teulu yn rhedeg y practis. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio un meddyg teulu locwm a oedd wedi'i gyflogi ers mwy na phum mlynedd, a oedd, felly, yn gyfarwydd iawn â'r practis ac wedi meithrin perthynas â'r cleifion. Dywedodd rheolwr y practis ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi gan y partneriaid meddygon teulu, a'i bod yn gallu codi unrhyw syniadau neu bryderon.

Roedd gan reolwr y practis rôl arweiniol yn y practis, a oedd yn cynnwys gweithio fel rhan o'r clwstwr, TG, cyllid ac iechyd a diogelwch. Roedd maes gwaith y rheolwr busnes wedi'i ddiffinio'n glir, gan gynnwys rheoli staff a materion adnoddau dynol, cwblhau rota'r meddygon teulu a chreu adroddiadau ar bryderon, cwynion a digwyddiadau arwyddocaol.

Gwelsom fod y practis yn cynnal cyfarfodydd practis wythnosol, a oedd yn cynnwys cyfarfod busnes, wedi'i ddilyn gan gyfarfod clinigol. Roedd y partneriaid meddyg teulu, rheolwr y practis a'r rheolwr busnes yn mynychu'r cyfarfodydd. Roedd agenda'r cyfarfod busnes yn cynnwys digwyddiadau arwyddocaol a chwynion gan gleifion. Gwelsom fod agenda'r cyfarfod clinigol yn cynnwys diogelu a diweddariad ar weithgareddau'r clwstwr. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd yn y cyfarfodydd, ond ar rai achlysuron, roedd y nodiadau yn gryno iawn ac ond yn darparu pwyntiau bwled. Gallai fod yn anodd, felly, i aelod o'r staff nad oedd wedi mynychu'r cyfarfod i ddeall cyddestun yr hyn a drafodwyd yn llawn. Gwelsom hefyd nad oedd cofnod o'r camau gweithredu yn y cofnodion er mwyn dangos yn glir pa gamau y cytunwyd arnynt, pwy fyddai'n eu cyflawni ac unrhyw amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y nyrsys yn cyfarfod unwaith y mis, ond ni welsom unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd hynny. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd tîm y dderbynfa wedi cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ers peth amser. Fodd bynnag, roedd y practis yn ymwybodol o'r mater ac yn bwriadu eu cyflwyno.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff llawn yn cael eu cynnal unwaith bob deufis. Roedd agenda'r cyfarfod yn cynnwys eitemau agenda a bennwyd gan y meddygon teulu, rheolwr y practis, y rheolwr busnes, y tîm gweinyddol a thîm y dderbynfa. Gwelsom mai teitl agendâu'r cyfarfodydd oedd agenda / cofnodion. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd.

Gwelsom fod polisïau'r practis a oedd yn ymdrin â meysydd clinigol a gweinyddol yn cael eu cadw ar fewnwyd y staff, a dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i unrhyw bolisïau perthnasol, a'u bod yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni fu modd i ni gael gafael ar y polisïau ar y fewnwyd gan fod yr

hyperddolenni wedi methu yn dilyn diweddariad i Windows 10 yr wythnos flaenorol. O ganlyniad, trefnodd rheolwr y practis i ni gael mynediad i'r ffeiliau lleol a rannwyd er mwyn gweld y polisïau.

Gwelsom fod nifer o'r polisïau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, fel y polisi arfarnu staff, y polisi cwynion a'r polisi hebryngwyr. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi chwythu'r chwiban ar waith. Mae polisi chwythu'r chwiban yn rhoi dull i gyflogeion fynegi pryderon yn fewnol a chael adborth ar unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod cofnodion cyfarfodydd y practis yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod o'r camau gweithredu
- Y cymerir cofnodion o gyfarfodydd llawn y practis
- Y gellir cael gafael ar bob polisi drwy'r fewnrwyd yn dilyn uwchraddio'r system i Windows 10
- Y caiff polisi chwythu'r chwiban ei roi ar waith.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd polisi recriwtio ar waith yn y practis a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹¹. Roedd yn dangos ei bod yn ofynnol i'r staff clinigol gwblhau gwiriad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, wrth adolygu sampl o ffeiliau'r staff, gwelsom un achos lle nad oedd cofnod o wiriad y

¹¹ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'r DBS hefyd yn cynnal Rhestrau Gwahardd ar gyfer plant ac oedolion, ac yn gwneud penderfyniadau ystyrion ynghylch a ddylai unigolyn gael ei gynnwys ar un o'r rhestrau hyn, neu'r ddwy ohonynt, a'i wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a reoleiddir.

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na chopi o'r dystysgrif yn ffeil aelod o'r staff clinigol.

Gwelsom fod adolygiad o gymysgedd sgiliau'r nyrsys wedi'i gynnal yn 2018, a adolygodd rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r tîm nyrsio. Gwelsom hefyd fod y practis wedi recriwtio dau dderbynnydd mewn rôl ddeuol a oedd yn cynnwys dyletswyddau derbynfya/fflebotomi. Gwnaed hyn er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y tîm nyrsio a thîm y dderbynfa. Cawsom wybod bod y timau'n gefnogol iawn i'w gilydd.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent wedi dweud eu bod yn hapus yn eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu harfarnu'n flynyddol a gwelsom sampl o gofnodion y staff a oedd yn cadarnhau hyn. Bydd y broses arfarnu flynyddol yn helpu i nodi unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad, ac anghenion hyfforddiant a datblygu'r staff. Mae hyn hefyd yn gyfle i'r rheolwyr roi adborth i'r staff ar eu perfformiad.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cofnodion hyfforddiant y practis yn anghyflawn. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch tân, dadebru, diogelu a llywodraethu gwybodaeth. Gwelsom nad oedd gan y practis fatrics hyfforddiant cyfredol hawdd ei ddefnyddio na thystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant er mwyn dangos yr hyfforddiant a ddilynwyd gan y staff meddygol, y staff nyrsio a'r staff gweinyddol. Gwelsom fod taenlenni ar wahân yn cael eu diweddarau ar gyfer unigolion a oedd yn nodi'r cwrs, y dyddiad a'r lleoliad. Heb fatrics hyfforddiant cyfredol, nid oedd modd gwybod a oedd y staff wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol o fewn yr amserlenni priodol, er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn aros yn gyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff, a hynny ar y lefel ofynnol ar gyfer eu rôl
- Sicrhau bod gwybodaeth am hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn cael ei chadw ar fatrics hyfforddiant er mwyn dangos yn hawdd pryd y mae angen hyfforddiant newydd neu hyfforddiant gloywi.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Meddygfa Arberth

Dyddiad arolygu: 21 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gofal Diogel ac Effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod trefniadau addas ar waith o ran diogelwch tân. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant staff, ymarferion tân a phrofi'r cyfarpar larwm tân yn rheolaidd.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Practis wedi trefnu i Dyfed Alarms ddarparu hyfforddiant ar gynnal profion tân wythnosol, a chaiff cofrestr ei llunio i gofnodi'r gwiriadau hyn. Mae'r practis wedi trefnu i'r staff presennol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu ar Ddiogelwch Tân y Ganolfan Genedlaethol ar Asesu Risg Tân, ac i'r hyfforddiant hwn gael ei gynnwys yn y broses sefydlu. Bydd cyfeiriad e-bost pob aelod o'r staff yn cael eu hanfon i customer.service@nfrac.co.uk (bydd hyn yn rhoi mynediad untro i'r	Rachel Harries	01.11.2019 31.12.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyfforddiant) Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gwblhau Ymarfer Tân. Ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau, caiff yr ymarferion eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a'u cofnodi'n briodol		
<p>Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Y bydd yr archwiliadau priodol o'r troli offer dadebru yn cael eu cwblhau a'u cofnodi o leiaf unwaith yr wythnos.</p>	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae cofrestr y practis wedi cael ei newid er mwyn adlewyrchu'r archwiliadau wythnosol. Mae dolen at Wefan y Cyngor Dadebru wedi'i hychwanegu at Fewnrwyd y Practis a chaiff ei adolygu er mwyn chwilio am unrhyw newidiadau.	Kirsty Gilling/Hazel Hughes/Anna Doble/Ruth Edwards/Mari a Young	Cwblhawyd

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): **Kirsty Gilling**

Rôl: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: **24.10.2019**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Arberth

Dyddiad arolygu: 21 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried ffyrdd o wella preifatrwydd cleifion a lleihau'r risg y gallai cleifion eraill glywed unrhyw wybodaeth bersonol ar ddamwain, er enghraifft, rhoi sgrin ar ddesg y dderbynfa Sicrhau bod arwyddion clir yn cael eu harddangos yn barhaol yn y dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion bod cyfleuster hebryngwr ar gael. 	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Bydd y Practis yn trafod y posibilrwydd o osod paneli preifatrwydd gwydr ar ddesg y dderbynfa â'r landlord</p> <p>Mae'r derbynnydd bellach yn gofyn i gleifion aros y tu ôl i'r sgrin preifatrwydd wrth ddesg y dderbynfa tan iddynt gael eu galw</p> <p>Bydd poster ar hebryngwyr yn cael ei arddangos yn glir yn y dderbynfa ac ar sgriniau gwybodaeth i gleifion y</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)</p> <p>Cathy Howells/Nicola Phillips (Uwch-dderbynyddion)</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dderbynfa, yn ogystal ag ym mhob ystafell ymgynghori		
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod arwyddion yn y dderbynfa yn dangos yn glir ble mae'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd thriniaeth Sicrhau bod y system galw cleifion yn cynnwys gwybodaeth sy'n dweud wrth y cleifion ym mha ystafell y mae eu hapwyntiad Sicrhau bod poster Gweithio i Wella yn cael ei arddangos a bod taflenni ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion eu cadw Sicrhau bod y polisi cwynion yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel ffynhonnell eiriolaeth. 	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	<p>Bydd y practis yn gosod arwyddion ychwanegol ar gyfer ardaloedd yr ystafelloedd triniaeth</p> <p>Mae'r system galw cleifion yn rhoi gwybod i'r cleifion ble mae'r ystafell ymgynghori, gan nodi a yw i'r chwith, i'r dde, gyferbyn neu tu ôl i ddesg y dderbynfa</p> <p>Caiff taflenni a phoster Gweithio i Wella eu harddangos yn glir yn y dderbynfa ac ar y sgriniau gwybodaeth i gleifion yn y dderbynfa</p> <p>Caiff polisi a gweithdrefn cwynion y practis eu diweddarau i gynnwys AGIC fel ffynhonnell eiriolaeth</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis)</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis)</p> <p>Cathy Howells/Nicola Phillips (Uwch-dderbynyddion)</p> <p>Shirley Foster (Derbynydd/Cy morth TG)</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth bwysig am y practis ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys gwybodaeth ar y wefan	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Bydd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion a gynhyrchir gan y practis yn ddwyieithog gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu'r GIG. Bydd yr holl wybodaeth newydd a ddaw i law yn cael ei harddangos yn ddwyieithog	Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)	Parhaus
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff proses ysgrifenedig neu brotocol ei rhoi/roi ar waith, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cleifion yn cael eu hatgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol neu'n cael cynnig ymgynghoriad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol o'r fath.	5.1 Mynediad amserol	Bydd y practis yn rhoi polisi ar waith i gynnwys y ddogfennaeth gyfredol, yn tynnu sylw at y gwasanaethau ychwanegol sydd ar gael yn y practis drwy'r Clwstwr a'r Trydydd Sector, i bob aelod o'r staff ei ddilyn wrth gyfeirio cleifion at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Caiff y protocol hwn ei drafod mewn cyfarfod staff yn y dyfodol a bydd hefyd yn cael ei gynnwys yn y broses sefydlu	Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)	Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r practis ystyried opsiynau i wella mynediad defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio i adeilad y practis.	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	Bydd y practis yn trafod â'r landlord y posibilrwydd o osod teclynnau agor drysau trydanol ar y fynedfa i'r brif dderbynfa er mwyn gwella mynediad	Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)	Mawrth 2020

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod asesiadau risg y practis yn cael eu cwblhau, gan gynnwys asesiad risg iechyd a diogelwch. Sicrhau bod y llwybr i'r toiled â mynediad i bobl anabl i fyny'r grisiau yn rhydd rhag unrhyw rwystrau Comisiynu asesiad risg tân allanol newydd. 	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd y practis yn cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch, i gynnwys hyfforddiant staff ac yn ei ddogfennu yn briodol</p> <p>Mae mynediad i'r toiled anabl wedi cael ei wella drwy symud bwrdd a rhai cadeiriau yn yr ardal aros</p> <p>Bydd y practis yn trefnu asesiad risg tân allanol, i'w gynnal gan FPS ym mis Ebrill 2020. Bydd y practis yn defnyddio FPS ar gyfer ei holl anghenion diogelwch tân yn y dyfodol er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth</p> <p>Mae'r Practis wedi trefnu i Dyfed Alarms</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) Cathy Howells (Uwch-dderbynnydd)</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) Cathy Howells (Uwch-dderbynnydd)</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis)</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Mawrth 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ddarparu hyfforddiant ar gynnal profion tân wythnosol, a chaiff cofrestr ei llunio i gofnodi'r gwiriadau hyn.</p> <p>Mae'r practis wedi trefnu i'r staff presennol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu ar Ddiogelwch Tân y Ganolfan Genedlaethol ar Asesu Risg Tân, ac i'r hyfforddiant hwn gael ei gynnwys yn y broses sefydlu. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gwblhau Ymarfer Tân. Ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau, caiff yr ymarferion eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a'u cofnodi'n briodol</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y nodir dyddiad ar yr holl lenni urddas tafladwy, a bod rhai newydd yn cael eu gosod ar yr adegau gofynnol. Sicrhau y nodir dyddiadau ar yr holl finiau gwastraff ar gyfer cadw offer 	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Nodir dyddiad ar yr holl lenni urddas tafladwy, a chaiff rhai newydd eu gosod ar yr adegau gofynnol</p> <p>Nodir dyddiadau ar yr holl finiau gwastraff ar gyfer cadw offer miniog</p>	<p>Ruth Edwards (Nyrs y Practis) Hazel Hughes (HCA) Anna Doble (Fflebotomydd)</p>	<p>Mawrth 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>miniog meddygol</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried yr opsiynau ar gyfer cadw gwastraff clinigol yn ddiogel, er enghraifft ei storio y tu allan Diweddarau'r cofnod canolog o imiwneidd yr holl staff clinigol rhag Hepatitis B. 		<p>meddygol</p> <p>Bydd y practis yn trafod â'r landlord y posibilrwydd o osod darn o lawr caled ar ochr chwith uchaf y maes parcio er mwyn storio'r biniau gwastraff clinigol.</p> <p>Bydd statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff yn cael ei ddiweddarau a'i gofnodi yn eu ffolderi staff unigol, yn ogystal â'i gofnodi'n electronig</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) y</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) y</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Mawrth 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad yw meddyginiaeth na brechlynnau yn yr oergell yn y fferyllfa yn cyffwrdd â chefn yr oergell, gan gynnal y gadwyn oer briodol Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant dadebru gorfodol. 	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Rhoddir arwydd ar flaen pob oergell sy'n cadw brechlynnau yn nodi pwysigrwydd sicrhau'r gadwyn oer a sut i wneud hyn. Darperir hyfforddiant i'r staff ar hyn yn y cyfarfod staff nesaf</p> <p>Bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi ar ddadebru, a chaiff hyn ei gofnodi ar fatrics hyfforddi</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) y</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr Practis) y</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Gorffennaf 2020</p>
Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:	孝2.7 Diogelu			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu yn y practis. Sicrhau bod polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn berthnasol ac yn gyfredol. Sicrhau bod pob aelod o staff y practis yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a darparu tystiolaeth i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau Sefydlu cyfarfodydd ffurfiol â'r ymwelwyr iechyd er mwyn trafod materion diogelu plant. 	plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	<p>Trefnir sesiwn hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ymdrin â diogelu neu amddiffyn oedolion agored i niwed</p> <p>Bydd y practis yn adolygu'r holl bolisïau diogelu ac amddiffyn oedolion agored i niwed ac yn eu diweddarau'n briodol</p> <p>Cedwir cofnod o hyfforddiant y staff ar ddiogelu ac amddiffyn oedolion agored i niwed yn y matrices hyfforddiant ac yn ffolderi unigol y staff</p> <p>Trefnwyd cyfarfodydd ffurfiol â'r Ymwelwyr Iechyd a'r Bydwagedd ar ddydd Gwener olaf bob mis</p>	<p>Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)</p> <p>Kirsty Gilling (Rheolwr y Practis)</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Ionawr 2020</p>
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r	3.4 Llywodraethu	Bydd rheolwr y practis yn ystyried yr	Kirsty Gilling	Gorffennaf

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth.	Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	opsiynau ar gyfer sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth, boed drwy e-ddysgu neu fformat grŵp	(Rheolwr Practis)	2020
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff meddyginiaethau a ragnodir eu cysylltu'n glir â'r cyflyrau priodol yng nghofnodion y cleifion Sicrhau y cofnodir y rhesymau dros roi'r gorau i ragnodi meddyginiaeth. 	3.5 Cadw cofnodion	Mae Dr Wang wedi rhoi cyngor i'r Partneriaid ar y gofyniad hwn	Dr Helen Wang	Ionawr 2020

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

<p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod cofnodion cyfarfodydd y practis yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod o'r camau gweithredu Y cymerir cofnodion o gyfarfodydd llawn y practis Y gellir cael gafael ar bob polisi drwy'r fewnrwyd yn dilyn uwchraddio'r system i Windows 10 Y caiff polisi chwythu'r chwiban ei roi ar waith. 	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Bydd y practis yn sicrhau y cymerir cofnodion ym mhob cyfarfod a'u bod yn gynhwysfawr ac yn cynnwys camau gweithredu</p> <p>Mae polisi'au'r practis ar gael drwy fewnrwyd y Practis er mwyn i staff gael gafael arnynt yn hawdd. Bydd y practis yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu cael gafael arnynt</p> <p>Bydd y practis yn llunio Polisi Chwythu'r Chwiban ac yn rhoi gwybod i'r staff am ei gynnwys, ei berthnasedd a ble i gael gafael arno</p>	<p>Kirsty Gilling y (Rheolwr Practis)</p> <p>Kirsty Gilling y (Rheolwr Practis)</p> <p>Kirsty Gilling y (Rheolwr Practis)</p>	<p>Ionawr 2020</p> <p>Ionawr 2020</p> <p>Mawrth 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff, a 	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Caiff statws gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pob aelod o'r staff ei adolygu, a'i adnewyddu lle bo angen</p>	<p>Kirsty Gilling y (Rheolwr Practis)</p>	<p>Gorffennaf 2020</p>

<p>hynny ar y lefel ofynnol ar gyfer eu rôl</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwybodaeth am hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn cael ei chadw ar fatrics hyfforddiant er mwyn dangos yn hawdd pryd y mae angen hyfforddiant newydd neu hyfforddiant gloywi. 		<p>Bydd y practis yn rhoi matrices hyfforddiant ar waith ar gyfer y staff i gyd, gan gynnwys y Partneriaid Meddyg Teulu</p>		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Kirsty Gilling**

Swydd: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: **7 Ionawr 2020**